



Cymorth ariannol wrth ddychwelyd i'r gwaith ar ôl anaf i'r ymennydd

Cyflwyniad

Gall cael profiad o anaf i'r ymennydd achosi newidiadau yn amgylchiadau cyflogaeth unigolyn, a gallech ganfod bod angen cymorth ariannol arnoch yn ystod y broses o ddychwelyd i'r gwaith. Mae nifer o fudd-daliadau a mathau eraill o gymorth ariannol yn bodoli a gall fod yr hawl gennych i ofyn amdanynt yn ystod y broses honno. Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi gwybodaeth i chi am y cymorth ariannol pwysicaf sydd ar gael.

Mae'n bwysig cofio bod cyfradd y budd-daliadau a'r hawliau yn newid dros amser, ac y bydd eich hawliau eich hun yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol chi. Dylech felly bob amser ofyn am gyngor gan eich Canolfan Byd Gwaith leol a'ch Cynghorydd Cyflogaeth i Bobl Anabl cyn hawlio unrhyw gymorth ariannol. Ceir rhagor o wybodaeth yn llyfryn Headway, *A guide to welfare benefits after brain injury*. Mae ffynonellau defnyddiol eraill o wybodaeth a chngor wedi eu cynnwys ar ddiwedd y daflen ffeithiau.

Cofiwch, mae'n werth gofyn i'ch Canolfan Byd Gwaith leol am gyfrifiad sy'n fwy manteisiol i chi cyn dechrau gweithio hefyd. Mae'r cyfrifiad hwn yn edrych yn fanwl ar yr effaith y caiff gwaith penodol ar y budd-daliadau yr ydych yn eu hennill ar hyn o bryd, er mwyn gwybod a fyddai o fantais i chi weithio.

Ffynonellau Cymorth Ariannol

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)

Mae ESA yn darparu cymorth ariannol pan na all yr hawlwr weithio oherwydd problemau iechyd. Mae'n bosibl weithiau barhau i dderbyn ESA pan fyddwch yn gweithio, o fewn rhai terfynau; gelwir hyn yn 'waith a ganiateir'. Mae'r hyn y gallech ei dderbyn drwy ESA yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol chi felly nid oes swm sefydlog.

Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)

Mae'r holl geisiadau newydd am DLA ledled y DU wedi'u disodli gan y budd-daliad lles a elwir yn Daliad Annibyniaeth Bersonol (POP). Os oes angen cymorth arnoch chi i wirio a yw'ch DLA wedi'i newid i POP, gallwch alw llinell gymorth Lwfans Byw i'r Anabl; ceir manylion cyswllt ar ddiwedd y daflen ffeithiau hon.

Taliad Annibyniaeth Bersonol (POP)

Mae'r budd-daliad hwn yn cynnig cymorth ariannol ar gyfer symudedd ac anghenion byw bob dydd. Caiff ei gynnig ar gyfraddau gwahanol, yn dibynnu ar anghenion personol yr hawlwr. Os oes angen cymorth arnoch i wneud cais am Daliad Annibyniaeth Bersonol, gallwch ffonio llinell gymorth POP; ceir manylion cyswllt ar ddiwedd y daflen ffeithiau hon. Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Adran Gwaith a Phensiynau os ydych yn derbyn



POP ac yna'n dychwelyd i'r gwaith, gan y bydd angen iddynt ailasesu eich amgylchiadau a'ch hawliau.

Mynediad i Waith

Cynllun y Llywodraeth yw hwn, sy'n cynnig cymorth ariannol i unigolion sy'n dychwelyd i'r gwaith yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ceir defnyddio'r grant i dalu am gostau teithio i'r gwaith neu i brynu cyfarpar arbennig i'ch helpu yn y gweithle. Mae'n bosib nad ydych yn gymwys i gael y grant os ydych yn derbyn budd-daliadau eraill, megis ESA neu Gymhorthdal Incwm. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/access-to-work/overview.

Cymorth ariannol â theithio i'r gwaith

Mae'r gronfa Cymorth hyblyg ar gael drwy Ganolfan Byd Gwaith i helpu â chostau teithio i gyfweliadau neu i'r gwaith. Yng Ngogledd Iwerddon, gall cynllun Teithio i Gyfweliad helpu â'r costau hyn hefyd.

Cynlluniau defnyddiol eraill

Rheolau pontio budd-daliadau

Os ydych wedi mynd trwy gyfnod arbrofol o weithio ac, ar ôl hyn, mae angen cymorth ariannol arnoch chi o hyd, mae'r 'rheol pontio 12 wythnos' wedi'i llunio i'ch helpu i hawlio ESA ar yr un gyfradd yn ddi-oed ar ôl eich cyfnod arbrofol.

Taliadau estynedig Budd-dal Tai (HB) a Budd-dal y Dreth Gyngor (CTB)

Gellir talu'r ddau daliad hyn am 4 wythnos, ar y cyfraddau blaenorol, os dechreuwch weithio ac nad ydych bellach yn derbyn budd-dal ar sail analluogrwydd, neu Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, neu os bydd eich oriau gwaith neu'ch cyflog yn codi. O fewn 4 wythnos mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Ganolfan Byd Gwaith neu i'ch Awdurdod Lleol, eich bod chi neu'ch partner wedi dechrau gweithio, neu ar fin dechrau gweithio, neu fod eich oriau gwaith neu'ch cyflog wedi codi. Ar ôl y taliadau estynedig, bydd unrhyw HB a CTB yn seiliedig ar eich amgylchiadau newydd.

Benthyciad Cyllidebu

Os ydych wedi bod yn derbyn Cymorth Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm neu ESA Cysylltiedig ag Incwm am gyfnod o 26 wythnos o leiaf, gallwch wneud cais am Fenthyciad Cyllidebu. Gallai hwn helpu â threuliau chwilio am waith neu ddechrau gwaith. Fel arfer mae'n rhaid ei ad-dalu o fewn 104 wythnos, a bydd yr ad-daliadau yn dod allan o'ch budd-daliadau.

Credyd Treth Plant

Taliad ar sail prawf modd yw hwn, y gallech ei hawlio os ydych yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc ac os yw'ch incwm chi yn is na'r terfyn penodedig. Mae amodau'r hawliad yn



amrywio yn ôl amgylchiadau'r teulu.

Credyd Treth Gwaith

Taliad ar sail prawf modd arall yw hwn. Gallech fod â hawl i hwn os ydych chi neu'ch partner yn gweithio am fwy na nifer benodedig o oriau'r wythnos, ac os yw'ch incwm chi o fewn terfyn penodedig. Unwaith eto, mae'r amodau hawlio'n dibynnu ar amgylchiadau'r teulu. Ceir elfennau 'anabledd' ac 'anabledd difrifol' sy'n cael eu cynnwys yn y cyfrifiadau lle mae'n briodol. Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Swyddfa Credyd Treth am unrhyw newidiadau o ran gwaith os ydych yn derbyn Credyd Treth Gwaith.

Costau gofal plant

Mae Credyd Treth Gwaith yn cynnwys credyd treth gofal plant hyd at 80% o gostau gofal plant penodedig. Hefyd, gellir diystyru o'ch enillion rai costau gofal plant yn yr asesiadau ar gyfer HB a CTB.

Cymhorthdal Incwm

Gallwch fod yn gymwys am Gymhorthdal Incwm os nad oes gennych incwm neu os yw'r incwm yn isel. Mae hyn yn dibynnu ar nifer yr oriau yr ydych yn eu gweithio mewn wythnos ac ar eich cynilion. Felly bydd y swm y gallwch ei hawlio yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Ni allwch dderbyn Cymhorthdal Incwm os ydych eisoes yn derbyn Lwfans Ceisio Gwaith neu ESA. Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Ganolfan Byd Gwaith os bydd eich amgylchiadau'n newid. Mae trefn wahanol ar gyfer ymgeisio am Gymhorthdal Incwm yng Ngogledd Iwerddon; am ragor o wybodaeth ewch i www.nidirect.gov.uk/articles/income-support-0. <<https://www.nidirect.gov.uk/articles/income-support-0>>

Grantiau elusennol

Mae nifer o sefydliadau elusennol sy'n darparu grantiau i unigolion, yn ddibynnol ar eu hamgylchiadau. Gallwch gael gwybodaeth am elusennau priodol gan y sefydliad Turn2us (ceir manylion cyswllt ar ddiwedd y daflen ffeithiau hon). Mae'r Cyfeiriadur Newid Cymdeithasol yn cynhyrchu llyfr defnyddiol o'r enw *The Guide to Grants for Individuals in Need*, sydd ar gael yn www.dsc.org.uk.

Rhagor o wybodaeth

Gall y gwasanaethau, sefydliadau a gwefannau canlynol ddarparu rhagor o wybodaeth ar sut i gael cymorth ariannol wrth ddychwelyd i'r gwaith:

- Cyngorwyr cyflogaeth i bobl anabl y Ganolfan Byd Gwaith leol. Gallwch ddefnyddio'r ddolen isod i ddod o hyd i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith agosaf: os.direct.gov.uk/default.aspx?type=1&lang=en.
- Swyddfeydd lleol Cyngor ar Bopeth – ceir manylion yn eich cyfeiriadur rhifau



ffôn lleol neu yn www.citizensadvice.org.uk.

- Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol – ceir manylion mewn cyfeiriaduron rhifau ffôn lleol neu ar wefannau'r cyngorau.
- Gwefan Llywodraeth y DU yn www.gov.uk/browse/benefits.

Manylion cyswllt defnyddiol

Cyngor ar Lwfans Byw i'r Anabl (DLA).

- Os cawsoch eich geni cyn 8 Ebrill 1948
 - 0345 605 6055 (rhif ffôn)
 - 0345 604 5312 (rhif ffôn testun)
- Os cawsoch eich geni ar ôl 8 Ebrill 1948
 - 0345 712 3456 (rhif ffôn)
 - 0345 722 4433 (rhif ffôn testun)
- Llinell gymorth Taliad Annibyniaeth Personol
 - 0845 850 3322 (rhif ffôn)
 - 0345 601 6677 (rhif ffôn testun)
- Turn2us (gwybodaeth am fudd-daliadau a grantiau) – ewch i www.turn2us.org.uk, neu ffoniwch
 - 0808 802 2000
- Llinell gymorth Credydau Treth
 - 0345 300 3900 (rhif ffôn)
 - 0345 300 3909 (rhif ffôn testun)